






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r cyngor

28 Mai 2020



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb o'r Cyngor

28 Mai 2020

Y Rhif Atgynhyrchu

- Yn ôl yr amcangyfrif diweddaraf mae'r Rhif atgynhyrchu R_t rhwng 0.7 a 1.0, gydag amcangyfrif canolog o 0.8.
- Mae R_t wedi bod yn is nag 1 ers pedair wythnos o leiaf ac mae hyn wedi arwain at gwmp yn nifer yr achosion a'r derbyniadau i'r ysbyty. Os bydd R_t yn parhau'n is nag 1 bydd nifer yr achosion yn parhau i syrthio.
- Wrth i nifer yr achosion syrthio, gall effaith gwahanol ddigwyddiadau lle gwelwyd y feirws yn cael ei drosglwyddo i nifer o unigolion dros gyfnod byr o amser arwain at amrywiad yn nifer yr achosion.

Yr Amcangyfrif Presennol ar gyfer R_t

- Ni fydd unrhyw newidiadau o ran y trosglwyddiadau a allai fod wedi digwydd dros y pythefnos i dair wythnos diwethaf wedi cael eu hadlewyrchu mewn data clinigol hyd yma, nac ychwaith yn yr amcangyfrifon presennol ar gyfer R_t .
- Mae tri lleoliad sy'n arbennig o berthnasol i'r sefyllfa bresennol: y gymuned, cartrefi gofal ac ysbytai. Nid yw'r rhain yn annibynnol oddi wrth ei gilydd. Gall yr haint gael ei ledaenu rhwng ysbytai a chartrefi gofal, o'r lleoliadau hyn yn ôl i'r gymuned, ac i'r gwrthwyneb. Ni ellir casglu'r data hyn drwy amcangyfrif R_t ar wahân ar gyfer cartrefi gofal ac ysbytai. Mae R_t ond yn ystyried achosion pellach o drosglwyddo'r feirws pan fydd y feirws eisoes wedi cael ei gyflwyno i boblogaeth benodol.
- Argymhellwyd nad R_t y dylid ei ddefnyddio i fonitro'r sefyllfa mewn lleoliadau penodol, ond y dylid gwneud hynny yn hytrach yn nhermau'r newid yn nifer yr achosion a marwolaethau ynddynt a hefyd, pan fo hynny'n bosibl, drwy ymchwiliadau epidemolegol o ddylanwad y tri epidemig ar ei gilydd.

Rhannu gwybodaeth am ymddygiadau er mwyn lleihau trosglwyddiadau rhwng rhwydweithiau cymdeithasol

- Mae'r Grŵp Cyngori Technegol (TAG) yn cefnogi barn SPI-B-O bod rhai egwyddorion allweddol y dylid eu rhannu wrth i'r camau i lacio'r cyfyngiadau ddod i effaith:
 1. Dylai unigolion y mae eu gwaith yn golygu eu bod yn dod i gysylltiad yn aml iawn ag amrywiol unigolion eraill osgoi dod i gysylltiad agos, am gyfnod hir, o dan do gydag unrhyw un i'r graddau y bo hynny'n bosibl.

2. Dylai unigolion sydd â gwahanol rwydweithiau yn y gweithle osgoi cyfarfod neu rannu'r un lleoliadau.
- Mae'r rhain yn negeseuon mwy cymhleth nag 'aros gartref' ac mae pwysigrwydd cynllun cyfathrebu cadarn yn hanfodol ar gyfer darparu cyngor clir i unigolion ar y pwyntiau hyn sydd ychydig yn wahanol i'w gilydd.

Lefelau cydymffurfio â'r mesurau presennol

- Mae'r rhan fwyaf o unigolion yng Nghymru yn parhau i ddilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol. Mae data ar lefel Prydain Fawr (oddi wrth ONS) hefyd yn dangos cydymffurfiaeth barhaus. Fodd bynnag, ceir gwahaniaethau yn awr rhwng canllawiau'r pedair gwlad, a golyga hyn nad oes modd o bosibl cymharu'r canlyniadau yn uniongyrchol â rhai'r wythnosau blaenorol.
- Mae'r rhan fwyaf o unigolion yng Nghymru yn parhau i ddilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol ac ni welir unrhyw wahaniaeth. Mae data ar lefel Prydain Fawr (oddi wrth ONS) yn dangos gostyngiad yn nifer y rheini a ddywedodd eu bod naill ai heb adael eu cartrefi neu a adawodd am y pedwar prif reswm a oedd yn cael eu caniatáu yn ystod cyfnod o gyfyngiadau symud yn unig (i deithio i'r gwaith ac yn ôl; i wneud siopa hanfodol; am resymau meddygol neu i wneud ymarfer corff).
- Mae'r data ar symudedd yn parhau i ddangos symudedd cynyddol, er enghraifft cynnydd yn llif traffig, mwy o deithiau i siopau a chynnydd yn symudedd gweithleoedd. Dros yr wythnosau diwethaf, mae rhai safleoedd gwerthu bwyd mawr wedi dechrau ailagor yn ogystal â siopau caledwedd ac, yn fwy diweddar, ganolfannau garddio. Mae hyn yn debygol o fod wedi arwain at fwy o unigolion yn teithio (yn y car neu ar droed) a rhai unigolion hefyd yn dychwelyd i weithio yn y busnesau hynny.
- Mae'r data hefyd yn dangos cynnydd mewn symudedd yng Nghymru sy'n llai nag yn Lloegr/y DU gyfan – er enghraifft mae data symudedd Apple ar roi cyfarwyddiadau gyrru yn dangos mwy o gynnydd yn Lloegr nag yng Nghymru. Mae symudedd mewn parciau (Google) yn y DU yn awr wedi dychwelyd i lefelau sylfaenol (o'i gymharu â chwymp o 35%-40% yn ystod y cyfyngiadau symud), ond yng Nghymru mae'n parhau i fod 20% yn is na'r llinell sylfaenol. Mae newidiadau o ran symudedd yn y categorïau eraill yr un fath yn gyffredinol.


Gwarchod: Dadansoddi Data CO-CIN

- Mae dadansoddiad o ddata Rhwydwaith Gwybodaeth Glinigol COVID-19 (CO-CIN) wedi'i gynnal gyda'r nod o ddod o hyd i unrhyw wahaniaethau o ran cyfradd y marwolaethau ymhlith achosion o COVID-19 cyn 23 Mawrth, ac wedi hynny, mewn perthynas ag oed a chydafiachedd.

- I grynhoi, gwelwyd llai o farwolaethau ymhlith y grwpiau gwarchod ar ôl 23 Mawrth 2020, wrth gyfrif nifer yr achosion yn syml ac wrth fodelu nifer y goroeswyr yn ffurfiol.


Ymchwil

- Mae 1904 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio ar hyn o bryd i gymryd rhan mewn astudiaethau iechyd y cyhoedd brys, sy'n gynnydd o 317 yn y 7 diwrnod niwethaf,
- Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar Dreialon Brechlyn Rhydychen sy'n awr yn agored ar gyfer recriwtio unigolion yng Nghymru.
- Mae ymchwilwyr wedi gallu darparu gwybodaeth a dadansoddiad o ffynonellau data cysylltiedig dienw yng Nghymru i lywio ein dealltwriaeth o COVID-19 a'n hymateb i COVID-19. Mae Health Data Research (HDR) UK yn cydlynu'r gweithgarwch hwn, ac mae cronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) yng Nghymru yn arwain y ffordd gydag amryw o brosiectau sydd naill ai yn yr arfaeth neu ar y gweill eisoes.
- Gan weithio ar y cyd fel rhan o HDR UK, mae mapiau wedi cael eu datblygu gan ddefnyddio data Ap Astudiaeth COVID-19 ZOE i nodi manau problemus posibl o ran yr haint lle mae lefel y rheini sydd wedi'u heintio yn uwch.
- Mae'r data (sy'n seiliedig ar tua 70,000 o ddefnyddwyr) yn arbennig o ddefnyddiol i ddangos sut mae'r pandemig COVID-19 yn effeithio ar gymunedau yng Nghymru. Mae'r mapiau diweddaraf yn dangos, ar hyn o bryd, fod y feirws yn fwy cyffredin yng nghymunedau'r Cymoedd. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r rheini sy'n defnyddio ZOE yng Nghymru. Mae'r wybodaeth y maent yn ei darparu inni yn ein helpu i ymateb a lleihau'r risg. Ceir rhai ardaloedd lle nad yw'r lefel cyfranogiad yn uchel a hoffem annog mwy o unigolion i ymuno.



Dangosfwrdd Data y GIG

- *Data ysbytai a ddiweddarwyd ar 27/05/2020*
- *Data lechyd Cyhoeddus Cymru a ddiweddarwyd ar 26/05/2020*
- Defnydd gwllâu ICU L3
 - Mae'r defnydd gwllâu cyffredinol yn 37.6%
 - O'r rhain mae 23% yn achosion o COVID a gadarnhawyd, 9% yn achosion lle ceir amheuaeth o COVID a 67% yn gleifion nad oes ganddynt COVID.
 - Mae'r defnydd gwllâu yn yr holl BILlâu sydd â chapasiti ICU L3 yn llai na 50%.
- Cyfartaleddau 7-Diwrnod:
 - Mae'r cyfartaledd 7-diwrnod yng nghyfanswm y derbyniadau dyddiol i ysbytai o achosion o COVID a gadarnhawyd ac achosion lle ceir amheuaeth o COVID yn parhau i syrthio, er mai'n araf y digwydd hynny, ac mae'n 103 ar hyn o bryd.



Ffôn fesur tebygolrwydd Tîm Asesu'r Pennaeth Cudd-wybodaeth (PHIA)

- Pan fo hynny'n briodol, bydd cyngor y Gell Cyngor Technegol yn mynegi Tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffôn fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws yr holl gwahanol elfennau o gyngor.

